**CYNGOR CYMUNED TROEDYRAUR**

**COFNODION Y CYFARFOD A GYNHALIWYD AR DACHWEDD 1af, 2022**

**Yn NEUADD BENTREF RHYDLEWIS, RHYDLEWIS am 7.30 y.h.**

**Yn bresennol** Cyng. Maldwyn Lewis (cadeirydd), Cyng. Sharon Thomas, Cyng. Mark Davies, Cyng. Ceri Jones, Cyng. Emyr Jones, Cyng. Rob Jones

Croesawyd y Cyng. Carol Davies a Rhian Jones fel Clerc newydd a diolchwyd i'r Clerc pressennol Margaret Sinnett Jones am ei gwaith.

**Ymddiheuriadau** Cyng. Roger Davies
Cyng. Llŷr Evans
Cyng. Siân Williams

**Clerc** Margaret Jones / Rhian Jones

| Eitem ar yr Agenda | | Gweithredu | Gan bwy | Erbyn pryd |
|---|---|---|---|---|
| 1 | Ymddiheuriadau , | Cafwyd ymddiheuriadau gan Gynghorwyr Roger Davies, Llŷr Evans a Siân Williams.<br><br>Nid oedd Cyng. Teifi Evans yn bresennol ac nid oedd wedi anfon ymddiheuriadau. | | |
| 2 | Datgelu Buddiannau | Dim. | | |
| 3 | Cofnodion | Roedd pob Cynghorydd wedi cael copi o gofnodion cyfarfod mis Hydref. | | |
| 4. | Materion yn Codi | Dim materion yn codi. | | |
| 5. | Cadarnhau Cofnodion | Cynigiodd Cyng. Mark Davies fod cofnodion cyfarfod mis Hydref yn gywir, ac eiliwyd y cynnig gan y Cyng. Emyr Jones. | | |
| 6. | Adroddiad y Cynghorydd Sir | Nododd y Cyng. Maldwyn Lewis ei fod wedi derbyn llythyr yn son am fuddsoddiad chwaraeon i'r ardal – er mwyn ceisio cael caeau chwarae 3G yn Aberteifi, Llambed a Synod Inn.<br><br>Ar Hydref 20fed yn Sain Ffagan cynhaliwyd seremoni wobrwyo " Diwrnod dysgu a gwaith i ysbrydoli". Gwobrwywyd pob aelod o staff Ceredigion yn y byd addysg am eu gwaith di-flino yn ystod Covid.<br><br>Ar Hydref 19eg gwnaeth y Cyngor dalu teyrnged i holl weithwyr Y Gwasanaethau Brys yng Ngheredigion.<br><br>Mae Actif Ceredigion yn annog y gymuned i gadw'n heini. Maent wedi sicrhau fod gan y cyhoedd hawliau tramwy cyhoeddus trwy | | |

heriau cerdded ar hyd a lled Ceredigion.

Ar Hydref 29ain dadorchuddiwyd cerflun o waith Glen Morris ar ben mynydd y Cambria wrth ben Ystrad Fflur gan yr Arglwydd Raglaw Sara Edwards.

.

7. Gohebiaeth

Derbyniwyd llythyr wrth Kerry Killick, ac mae wedi cael ei lobio gan G.C.

Diwygio Etholiadol – angen fwy o aelodau ( Cyng. Maldwyn Lewis i Ymateb).

Mae coeden Nadolig wedi cael ei chynnig fel rhodd i bentref Rhydlewis gan un o'r pentrefwyr – pawb yn cytuno i dderbyn y goeden a'r Cyng. Ceri Jones am gysylltu i drafod torri'r goeden a'i symud.

Asedau yn y gymuned – angen edrych ar ganlyniadau'r arolwg.

Y Lleng Brydeinig frenhinol – nodwyd fod arian ar gael i gyn-filwyr neu bobl sydd wedi dioddef oherwydd effaith swydd yn y lluoedd arfog. Ar hyn o bryd nid oedd neb yn wybodus am unrhyw berson o fewn ein cymuned byddai yn debyn cymorth.

Derbyniwyd e-bost ar Hydref 16eg,2022 yn nodi fod £1000 ar gael gan Gynllun NEST/Cadw'n gynnes ar gyfer y neuaddau i dalu am drydan/nwy os allai rhywun gynnig cymorth yn ein pentrefi dros fisoedd y Gaeaf.

Panel tâl i Gynghorwyr – mae'r ymgynghoriad yn agored.
Gallai cynghorau dalu £156 i bob Cynghorydd a £52 ychwanegol am gostau. Trafodwyd byddai Praesept yn cynyddu ac ni fyddai trigolion lleol yn hapus gyda Cynghorwyr yn cael eu talu. Panel Annibynnol sydd yn gwneud yr arolwg.
Barn Cynghorwyr Troedyraur oedd byddent yn parhau i wneud y swydd fel braint di-dâl i'r Gymuned.

Cynhelir Eisteddfod yr Urdd 2023 yn Llanymddyfri a holwyd am gyfraniad.

Nodwyd fod Ombudsman angen pob aelod o'r Cyngor i arwyddo Côd Ymddygiad.

Cynigiwyd gan y Cyng. Sharon Thomas ac eiliwyd gan y Cyng. Ceri Jones, ac roedd pob aelod oedd yn bresennol yn hapus fod arwyddion cyflymder y pentrefi yn cael eu gostwng o 30mya i 20mya yn y dyfodol agos – er na fyddai y cefnffyrdd yn cael eu cynnwys.

Derbyniwyd gwahoddiad i'r holl Gynghorwyr i fynychu digwyddiad yng Nghoedybryn ar Dachwedd 19eg am 2 o'r gloch i nodi llyfr a gyhoeddwyd yng nghynt eleni "Trysorau'r Filltir Sgwar".

8. Cynllunio

DIM

9. Ariannol

**Llofnodwyr Nat West** – nodwyd ei fod wedi cymryd tua 8 mlynedd i'w ddiweddaru. Mae llofnodwyr newydd wedi eu diweddaru bellach ac mae angen ychwanegu 4 enw neydd eto, sef –
Llŷr Evans, Teifi Evans, Sian Williams a Carol Davies

| | | |
|---|---|---|
| **Taliadau** | HMRC - £43.40 (PAYE) | 001676 |
| | Cyflog y Clerc - £173.80 | 001677 |
| | Llinos Jones - £354.57 | 001678 |
| | Solutions Factory - £72.00 | 001679 |

Cytunodd y Cynghorwyr Mark Davies i ni dalu'r anfonebau ac eiliodd y Cynghorydd Emyr Jones yn ystod y cyfarfod.

Praecept 2023/24 ( newid cyfeiriad gohebiaeth)

10. Materion Ardal

Mae angen coed Nadolig i bentrefi Brongest, Coedybryn, Ffostrasol Bwlchygroes, Maesllyn a Croesaln. ( coeden ar gael i Rhydlewis ) Mae angen goleadau newydd ym mhob pentref – pob Cynghorydd i chwilio am oleadau a chysylltu ar What's App. Y Cyng. Sharon Thomas i holi am y coed Nadolig a phawb sydd ar gael i gwrdd Dydd Sadwrn, Rhagfyr 3ydd yn y prynhawn i osod y coed.

Llongyfarchiadau a dymuniadau gorau i Gareth Thomas am gael ei ddewis i gynrychioli Cymru yn gemau Rygbi Rhyngwladol yr Hydref.

**FFOSTRASOL** – Mae'r prif gyflenwad dŵr yn broblem sy'n parhau.

Y bocsys Defib – Mae angen ffitio bocs newydd ger siop Ffostrasol. Yn ddelfrydol cael gwres ym mhob blwch fyddai orau, ond nid yw hyn yn bosib bob amser yng nghefn gwlad.

**COEDYBRYN**- Dim

**RHYDLEWIS** - Llifogydd yn Rhydypentre, SA44 5RH **(CLIC)**

**CROESLAN** - Nid yw'r blwch ffon i gael ei ddigomisiynnu ond iddo gael ei ddefnyddio hanner cant o weithiau'r flwyddyn. Mae angen ail osod drws newydd arno – angen llythyr at BT yn nodi Iechyd a Diogelwch y blwch ffôn heb ddrws gan ei fod yn wynebu'r ffordd Fawr.

Mae'r clawdd wedi tyfu wrth ddod fewn i Croeslan o gyfeiriad Llandysul ac yn gorchuddio'r arwydd cyflymder..

11. Cyfarfod Nesaf.

Cynhelir y cyfarfod nesaf ar NOS FAWRTH, 6ed o Ragfyr am 7.30yh Yn Neuadd Bentref Ffostrasol.

Gan nad oedd unrhyw faterion eraill i'w trafod, tynnodd y Cadeirydd y cyfarfod at ei derfyn am 9.00yh

12. Eitemau ar

Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| gyfer yr Agenda Nesaf | Datgelu Buddiannau<br>Cofnodion y Cyfarfod diwethaf<br>Cadarnhau Cofnodion<br>Adroddiad y Cynghorydd Sir<br>Gohebiaeth<br>Cynllunio<br>Cyllid –<br>Taliadau<br>Praesept 2023/24<br>Materion Ardal –<br>Dyddiad y cyfarfod nesaf |